Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Network Cymru

# Communities4Change Cymru:

## Adroddiad gwerthuso: Atodiadau ychwanegol



Awst 2023

*© 2023, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ceir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant argraffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

***ISBN:*** *978-1-83766-216-6*

***Fersiwn 1.0***

***Awduron:***

*Troy Wey (TW), Cathrine Winding (CW), Christian Heathcote-Elliott (CHE) a Dr Ciarán Humphreys (CH), yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

*Lucia Homolova (LH), yr Is-adran Ymchwil a Gwerthuso, y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

**Cynnwys**


Atodiad Un: Damcaniaeth newid .......... 4

Atodiad Dau: Dalen Gwybodaeth i Gyfranogwyr .......... 5

Atodiad Tri: Ffurflen Gydsynio .......... 11


Atodiad Pedwar: Neges e-bost recriwtio T1 .......... 13

Atodiad Pump: Trefn cyfweliadau .......... 15

- T2: Uwch arweinwyr .......... 24
- T2: Y gydweithrediaeth ehangach .......... 26
- T2: Grŵp Goruchwylio'r Prosiect .......... 28
- T3: Uwch arweinwyr .......... 30

Atodiad Chwech: Fframwaith codio cychwynnol .......... 35

# Atodiad Un: Damcaniaeth newid



# Atodiad Dau: Dalen Gwybodaeth i Gyfranogwyr

10 Ionawr 2022

**Dalen Gwybodaeth i Gyfranogwyr**

**Gwerthuso Proses ac Effaith Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg Communities4Change Cymru**

Datblygwyd Communities4Change Cymru gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ymagwedd ar gyfer newid wedi'i llywio gan dystiolaeth sy'n dwyn ynghyd unigolion o wahanol sefydliadau â'r nod cyffredin o gyflymu gweithredu i wella iechyd a thegwch iechyd. Rydym yn profi i weld a yw'r ymagwedd yn gweithio gyda Phartneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg (CTMHHP) fel modd o helpu i ddatblygu dull ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid iechyd a thai. Defnyddir canfyddiadau'r gwerthusiad hwn o'r broses a'r effaith i fireinio glasbrint Communities4Change a gwneud argymhellion ar gyfer defnyddio'r ymagwedd gyda mentrau newid amlasiantaethol yn y dyfodol.

Cyn i chi benderfynu a hoffech gymryd rhan, mae'n bwysig eich bod yn deall pam mae hyn yn cael ei wneud a beth mae'n ei olygu i chi. **Darllenwch y wybodaeth ganlynol a phenderfynwch a hoffech gymryd rhan ai peidio.**

## 1. Pam mae'r gwerthusiad hwn yn cael ei wneud?

Bydd y gwerthusiad hwn yn cynnwys cymryd rhan mewn cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig i gasglu gwybodaeth am sut mae'r ymagwedd Communities4Change wedi cael ei rhoi ar waith ac i ba raddau y mae wedi galluogi CTMHHP i gyflawni ei nod o ddatblygu dull ar gyfer rhannu gwybodaeth am iechyd a thai.

## 2. Pam rydych chi wedi gofyn i mi gymryd rhan?

Rydych wedi cael eich gwahodd i gymryd rhan oherwydd amlygwyd eich bod yn rhywun sy'n ymwneud â'r prosiect neu'n weithiwr proffesiynol o CTMHHP y mae eich safbwyntiau ar yr ymagwedd a'i chyflawniadau'n werthfawr i gynnydd Communities4Change Cymru yn y dyfodol.

## 3. **A ydw i'n gymwys i gymryd rhan?**

Rydych yn gymwys i gymryd rhan os ydych yn 18 oed a hŷn, ac os ydych yn Uwch Arweinydd y Gydweithrediaeth, yn aelod o'r Gydweithrediaeth neu'n aelod o Grŵp Goruchwylio'r Prosiect.

## 4. Beth fydd yn cael ei wneud?

Fe'ch gwahoddir trwy Microsoft Teams i gymryd rhan mewn dau gyfweliad lled-strwythuredig o bell gyda Swyddog Ymchwil Iechyd Cyhoeddus. Bydd y cyfweliad cyntaf yn cael ei gynnal yn ystod y pythefnos nesaf a bydd yr ail gyfweliad yn cael ei gynnal ar ôl y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau.

1. Gofynnir i chi lofnodi ffurflen sy'n datgan eich cydsyniad i gymryd rhan.

2. Bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal trwy Microsoft Teams ac yn para tua 30-40 munud. Bydd y cyfweliad yn cael ei recordio a'i drawsgrifio gan Microsoft Teams. Bydd y cyfweliad yn cael ei recordio i sicrhau ein bod yn cofnodi eich holl bwyntiau'n gywir.

3. Os nad ydych yn cydsynio i recordio'r cyfweliad, caiff ei gynnal o hyd a bydd y Swyddog Ymchwil Iechyd Cyhoeddus yn gwneud nodiadau ysgrifenedig.

4. Mae cymryd rhan yn y gwerthusiad yn wirfoddol, a gallwch adael y gwerthusiad unrhyw bryd.

5. Nid oes rhaid i chi ateb cwestiynau os nad ydych eisiau a gallwch ddod â'r cyfweliad i ben unrhyw bryd.

## 6. Pa gwestiynau a ofynnir?

Bydd y cyfwelydd yn gofyn cyfres o gwestiynau i chi ynglŷn â'r pynciau canlynol:

1. Sut y cyflwynwyd yr ymagwedd

2. Beth sydd wedi gweithio'n dda a ddim cystal

3. Pa allbynnau ac effeithiau a gyflawnwyd gan CTMHHP

## 4. Beth yw manteision posibl cymryd rhan?

Trwy gymryd rhan yn y gwerthusiad, byddwch yn helpu i wella ein dealltwriaeth o b’un a yw ymagwedd Communities4Change yn gweithio a ph’un a yw wedi helpu CTMHHP i gyflawni ei nod o ddatblygu dull ar gyfer rhannu gwybodaeth am iechyd a thai. Defnyddir y wybodaeth o’r gwerthusiad i fireinio a gwella’r ymagwedd.

## 5. Beth yw risgiau posibl cymryd rhan?

Ni ragwelir unrhyw risgiau yn gysylltiedig â chymryd rhan yn y gwerthusiad hwn. Ni ddisgwylir i’r cyfweliad ymdrin â phynciau a all fod yn sensitif. Fodd bynnag, os profwch unrhyw effeithiau annifyr am unrhyw reswm o ganlyniad i gwestiynau sensitif yn ymwneud â’r prosiect yn ystod y cyfweliad, rhowch wybod i’r Swyddog Ymchwil Iechyd Cyhoeddus a fydd yn eich cyfeirio at y gwasanaethau cymorth perthnasol. Cofiwch y gallwch dynnu’n ôl o’r gwerthusiad unrhyw bryd a hepgor cwestiynau nad ydych eisiau eu hateb, a bydd eich atebion yn cael eu cadw’n gyfrinachol.

## 6. A oes rhaid i mi gymryd rhan?

Nac oes. Chi sydd i benderfynu p’un ai cymryd rhan ai peidio. Mae cymryd rhan yn y cyfweliadau’n gwbl wirfoddol. Cewch dynnu’n ôl unrhyw bryd, ac nid oes rhaid i chi roi rheswm. Ni fydd penderfyniad i dynnu’n ôl yn effeithio ar eich hawliau. Os dymunwch dynnu’ch ymatebion yn ôl ar ôl y cyfweliad, mae croeso i chi gysylltu â ni trwy ddefnyddio’r manylion a ddarperir ar ddiwedd y ddalen wybodaeth hon neu ar eich neges e-bost wahoddiad.

## 7. Sut byddwch yn diogelu fy ngwybodaeth a beth fydd yn digwydd i’r canlyniadau?

Mae’n bwysig i ni fod eich holl wybodaeth yn ddiogel. Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn cael ei storio’n ddiogel i’w defnyddio ar gyfer gwerthuso, ac mewn ffordd sy’n golygu na fydd modd gwybod pwy a’i rhoddodd, yn unol â Deddfau Diogelu Data a’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

1. Bydd yr ymatebion a roddwch i’r cyfweliad yn cael eu gwneud yn ddienw. Bydd y drafodaeth fanwl yn cael ei recordio, ond bydd yn cael ei gwneud yn ddienw ar gyfer trawsgrifio a bydd y recordiad sain

crai yn cael ei ddileu. Bydd yr holl ddata ar gyfer y gwerthusiad yn cael ei storio ar gyfrifiadur wedi'i ddiogelu gan gyfrinair.

2. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chasglu na'i rhannu.

3. Bydd y data recordiad sain yn cael ei drawsgrifio gan wasanaeth trawsgrifio Microsoft Teams, na fydd ganddo fynediad at unrhyw fanylion personol y cyfranogwyr. Bydd y cyfranogwyr yn cael eu hadnabod gan rif adnabod yn unig ar y trawsgrifiad MS Teams neu'r dadansoddiad.

4. Er mwyn dadansoddi, bydd y data'n cael ei wneud yn ddienw a'i storio ar gyfrifiadur wedi'i ddiogelu gan gyfrinair, gyda rheolaethau llym ar waith i gyfyngu ar bwy all ei weld (e.e. at ddibenion dadansoddi), a bydd y data'n cael ei ddileu pan na fydd ei angen mwyach.

5. Bydd y data'n cael ei storio yn y fath fodd fel na fydd yn bosibl gwybod o bwy y daeth y wybodaeth, ac yn ddiogel yn unol â'r GDPR.

6. Bydd yr adroddiad yn cael ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n gwneud yr holl gyfranogwyr yn ddienw. Ni fydd modd adnabod cyfranogwyr o ganlyniad.

7. Gallai rhai dyfyniadau uniongyrchol gael eu defnyddio i bwysleisio pwyntiau allweddol, ond ni fyddant yn gysylltiedig â'ch manylion personol, ac ni fydd modd eich adnabod.

8. Pan fydd yr adroddiad wedi'i gwblhau, bydd y data dienw (e.e. trawsgrifiadau dienw o gyfweliadau, ffurflenni cydsynio) yn cael ei gadw am 6 blynedd, yn unol â'r GDPR.

Bydd y wybodaeth a roddwch yn y cyfweliadau yn cael ei datgelu i'r gwasanaethau perthnasol dim ond os rhennir mater diogelu gyda'r Swyddog Ymchwil Iechyd Cyhoeddus. Yn yr achos hwn, bydd angen i'r wybodaeth berthnasol gael ei rhannu gyda'r gwasanaethau perthnasol, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyflwyno ar ffurf adroddiadau a chyflwyniadau. Disgwylir y bydd y canfyddiadau ar gael erbyn mis Tachwedd 2022. Bydd crynodeb o'r canfyddiadau ar gael ar wefan Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru yma a bydd copi o'r gwerthusiad yn cael ei anfon atoch.

## 9. Pwy sy'n ariannu'r gwerthusiad hwn?

Iechyd Cyhoeddus Cymru

## 10. Beth os byddaf yn cytuno i gymryd rhan ac yna'n newid fy meddwl?

1. Mae cymryd rhan yn wirfoddol a gallwch dynnu'n ôl unrhyw bryd.
2. Gallwch ofyn am gael dileu eich data cyfweliad unrhyw bryd hyd at yr adeg pan fydd y cyfweliad wedi cael ei wneud yn ddienw a'i ddadansoddi. Ar ôl hynny, ni fydd modd gwybod pa ddata sy'n perthyn i ba gyfranogwr.

## 3. Pwy sydd wedi adolygu'r protocol gwerthuso?

Mae'r protocol gwerthuso wedi cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 4. Beth ddylwn i ei wneud os oes gennyf unrhyw gwestiynau?

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y gwerthusiad hwn, neu os penderfynwch nad ydych eisiau cymryd rhan yn y gwerthusiad mwyach ar unrhyw adeg, cysylltwch â'r canlynol:

Yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhif 2 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

PHW.Determinants@wales.nhs.uk

Os bydd gennych bryder am unrhyw agwedd ar y gwerthusiad hwn, dylech siarad ag aelod o dîm yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd a fydd yn gwneud ei orau i ateb eich cwestiynau. Os bydd gennych bryderon o hyd ar ôl trafod gyda'r tîm, gallwch gysylltu â thîm pryderon Iechyd Cyhoeddus Cymru:

**Tîm Pryderon Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhif 2 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

02920 104294

publichealthwales.handlingconcerns@wales.nhs.uk

**Diolch am ddarllen y ddalen wybodaeth hon.**

# Atodiad Tri: Ffurflen Gydsynio

**FFURFLEN GYDSYNIO**

Gwerthuso Proses ac Effaith Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg Communities4Change Cymru

**Enw'r Cyfwelydd(ion):**

Ticiwch y blwch nesaf at bob eitem i gadarnhau eich bod yn cytuno, ac yna llofnodwch ar waelod y ddalen.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y ddalen wybodaeth ddyddiedig 10 Ionawr 2022 ar gyfer y gwerthusiad uchod. Rwyf wedi cael cyfle i ystyried y wybodaeth, gofyn cwestiynau ac wedi cael ateb boddhaol iddynt. | ☐ |
| 2 | Rwy'n deall fy mod yn cymryd rhan yn wirfoddol ac y caf dynnu'n ôl unrhyw bryd heb roi unrhyw reswm. | ☐ |
| 3 | Rwy'n deall y bydd y wybodaeth a gesglir amdanaf yn cael ei storio'n ddiogel mewn modd dienw am chwe blynedd o leiaf. | ☐ |
| 4 | 1. Rwy'n deall y gallaf ofyn am gael dileu fy nata unrhyw bryd hyd at yr adeg pan fydd y data wedi cael ei wneud yn ddienw a'i brosesu. Ar ôl hynny, ni fydd modd gwybod pa ddata sy'n perthyn i ba gyfranogwr. | ☐ |
| 5 | Rwy'n cytuno i'm cyfweliad gael ei recordio ar MS Teams ac i'r trawsgrifiad sain gael ei lawrlwytho ar ôl i'r cyfweliad gael ei gwblhau. Bydd y recordiad o MS Teams yn cael ei ddileu o MS Teams pan fydd y trawsgrifiad wedi cael ei lawrlwytho. | ☐ |
| 6 | Rwy'n cytuno i'm dyfyniadau gael eu defnyddio mewn modd dienw, er mwyn pwysleisio/crynhoi pwyntiau allweddol yn yr adroddiad terfynol, ac rwy'n deall y bydd y rhain yn cael eu gwneud yn ddienw. Os nad yw'r cyfweliad yn cael ei recordio, rwy'n cytuno i'm dyfyniadau gael eu haralleirio. | ☐ |
| 7 | 2. Rwy'n cytuno i gymryd rhan yn y cyfweliadau dilynol a amlinellir yn y Ddalen Gwybodaeth i Gyfranogwyr. | ☐ |
| 8 | 3. Rwyf wedi cael gwybod y bydd angen i unrhyw faterion diogelu a ddatgelir gael eu rhannu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | 4. Rwy’n cytuno i gymryd rhan yn y gwerthusiad uchod o Communities4Change Cymru. | ☐ |

| Cyfranogwr | Dyddiad | Llofnod |
|---|---|---|
| | | |
| Enw’r unigolyn sy’n derbyn y cydsyniad | Dyddiad | Llofnod |
| | | |

# Atodiad Pedwar: Neges e-bost recriwtio T1

**Uwch Arweinwyr**

**Gwerthusiad Communities4Change Cymru – gwahoddiad i gymryd rhan**

Annwyl X

Yn rhan o brosiect peilot Communities4Change Cymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal gwerthusiad i weld sut mae'r ymagwedd wedi cael ei gweithredu gyda Phartneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg a beth a gyflawnwyd gan y gydweithrediaeth erbyn diwedd y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau.

Rydym yn eich gwahodd i gymryd rhan yn y gwerthusiad. Bydd hyn yn golygu cymryd rhan mewn tri chyfweliad byr. Bydd y cyfweliad cyntaf yn cael ei gynnal yn ystod y pythefnos nesaf, bydd yr ail gyfweliad yn cael ei gynnal ar ôl y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau ac yna bydd cyfweliad dilynol yn cael ei gynnal ymhen chwe mis i weld sut mae'r gwaith wedi datblygu. Bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal o bell gan ddefnyddio Microsoft Teams ac fe'u harweinir gan Swyddogion Ymchwil Iechyd Cyhoeddus yn Iechyd Cyhoeddus Cymru nad ydynt wedi bod yn ymwneud â'r prosiect. Gweler y Ddalen Gwybodaeth i Gyfranogwyr atodedig ar gyfer manylion llawn. Bydd y canfyddiadau o'r gwerthusiad yn helpu i fireinio ymagwedd Communities4Change a llywio cydweithrediaethau amlasiantaethol yn y dyfodol sy'n defnyddio'r ymagwedd hon.

Mae cymryd rhan yn y gwerthusiad yn wirfoddol, ond byddem yn gwerthfawrogi eich barn am yr ymagwedd a chyflawniadau'r gydweithrediaeth yn fawr.

Defnyddiwch y botymau pleidleisio i ddangos a ydych yn fodlon cymryd rhan yn y gwerthusiad. Os ydych yn fodlon cymryd rhan, nodwch ba bryd y byddech ar gael ar gyfer y cyfweliad cyntaf yn y tabl isod.

| **Dyddiad y cyfweliad cyntaf** | |
|---|---|
| Dyddiad ym mis Ionawr | Amserau ar gael |
| 19 | |
| 20 | |
| 21 | |
| 24 | |
| 25 | |

| | |
|---|---|
| 26 | |
| 27 | |
| 28 | |
| Dewis iaith: | ☐Cymraeg<br>☐Saesneg |

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Cofion

Swyddog Ymchwil Iechyd Cyhoeddus

# Atodiad Pump: Trefn cyfweliadau

## T1: Uwch Arweinwyr

**Communities4Change Cymru – Gwerthuso Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg**

Trefn Cyfweliadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dechrau'r cam gweithredu (T1) | ☒ | Uwch arweinwyr | ☒ |
| Cam ôl-weithredu (T2) | ☐ | Y gydweithrediaeth ehangach | ☐ |
| Cam dilynol ar ôl chwe mis (T3) | ☐ | Grŵp Goruchwylio'r Prosiect | ☐ |

Rhaglith – dylai'r cyfwelydd ddarllen hwn i'r cyfranogwr

| | |
|---|---|
| Diolch am gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliad heddiw a fydd yn para tua 30-40 munud. Bydd y cyfweliad hwn yn canolbwyntio ar eich profiad o ymagwedd Communities4Change Cymru a Chydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg hyd yma.<br><br>Cyn i ni ddechrau'r cyfweliad, mae angen i mi wirio eich bod wedi cael cyfle i ddarllen y ddalen gwybodaeth i gyfranogwyr. | |
| Oes gennych chi unrhyw gwestiynau? | ☐ |
| **Ffurflen gydsynio wedi'i llenwi**<br><br>Diolch am ddychwelyd y ffurflen gydsynio. Oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y ffurflen?<br><br>**Ffurflen gydsynio heb ei llenwi**<br><br>A gawsoch chi gyfle i edrych ar y ffurflen gydsynio? Cyn i ni ddechrau, bydd angen i mi fynd trwyddi gyda chi. | |
| Ffurflen gydsynio wedi'i thicio a'i llofnodi (yn berthnasol yn T1 yn unig) | ☐ |

| | |
|---|---|
| 1 | A allwch chi ddweud wrthyf ba sefydliad rydych yn gweithio iddo a beth yw'ch rôl yng Nghydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg? |
| 2 | Beth yw'ch dealltwriaeth o ymagwedd Communities4Change Cymru?<br><br>Anogion: elfennau craidd / egwyddorion / cylch oes newid<br><br>**[dangoswch anogiad A]** |
| 3 | I ba raddau ydych chi'n credu y bydd ymagwedd Communities4Change Cymru yn helpu'r gydweithrediaeth i gyflawni newid ystyrlon?<br><br>Anogion: Gwahaniaethau o gymharu â phrofiadau eraill o weithio mewn partneriaeth; unrhyw agweddau ar yr ymagwedd hyd yma a fydd yn helpu neu'n rhwystro newid; beth fyddai'n gwneud newid yn ystyrlon?<br><br>Anogiad: Pam ydych chi'n dweud hyn? |
| 4 | Nawr, hoffwn i chi ystyried y **gweithdai paratoi**. |
| 4.1 | Mae glasbrint Communities4Change Cymru yn nodi y dylai uwch arweinwyr fod wedi gwneud y canlynol erbyn diwedd y cam cwmpasu a chynllunio:<br><br>1. Cael dealltwriaeth o ymagwedd Communities4Change Cymru<br>2. Cytuno ar bwrpas y gydweithrediaeth a'r nod arfaethedig<br>3. Ystyried beth fyddai'r camau nesaf ar gyfer y gwaith ar ôl y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau (strategaeth ymadael)<br>4. Cytuno ar ofynion hwyluso<br>5. Trafod pwy y mae angen iddo fod yn rhan o'r gydweithrediaeth<br><br>I ba raddau ydych chi'n credu bod y gweithdai paratoi wedi cyflawni hyn?<br><br>Anogiad: A allwch chi ddweud ychydig yn fwy wrthyf am eich ateb? |
| 4.2 | Pa mor effeithiol oedd y gweithdai, yn eich barn chi, wrth alluogi'r grŵp ddod i gytundeb ar y nod ar gyfer y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau a'r camau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nod? |
| 4.3 | I ba raddau ydych chi'n credu bod y nod a osodwyd yn briodol **[dangoswch anogiad B]?** Pam? |

| | |
|---|---|
| | Anogion – a yw'n gyflawnadwy, yn ymestynnol, yn bwysig, a fydd yn arwain at wella iechyd a thegwch] |
| 4.4 | Ar raddfa o 1 i 10, pa mor hyderus ydych chi y bydd y nod ar gyfer y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau yn cael ei gyflawni?<br><br>Anogiad: Beth yw'r rheswm dros eich ateb? |
| 5 | Beth oedd wedi gweithio'n dda a ddim cystal yn y gweithdai, yn eich barn chi?<br><br>Anogiad: A oes unrhyw beth y dylid bod wedi'i wneud yn wahanol? |
| 6 | Nawr, hoffwn i chi ystyried y **gweithdy lansio (a oedd yn ceisio canolbwyntio ar ddatblygu ymrwymiad ac egluro a chytuno ar nodau) a'r gweithdy diwrnod 25**. |
| 6.1 | I ba raddau ydych chi'n credu bod yr holl aelodau wedi cyfrannu at drafodaethau?<br><br>Anogion:<br>1. Ydych chi'n credu y rhoddwyd cyfle i'r holl aelodau gael eu clywed?<br>2. Ydych chi'n credu bod y gydweithrediaeth yn fan diogel i aelodau rannu eu safbwyntiau?<br>3. Os oedd barn aelod yn tynnu'n groes i farn y mwyafrif, i ba raddau yr oedd ei farn yn cael ei pharchu, ei thrafod a'i gweithredu (os yw'n briodol)?<br>4. A allwch chi ddisgrifio enghreifftiau penodol i gefnogi hyn (does dim angen enwi cydweithwyr)? |
| 6.2 | I ba raddau ydych chi'n credu bod y gydweithrediaeth yn gweithio'n effeithiol?<br><br>Anogion:<br>1. Ydych chi'n credu bod gwaith y gydweithrediaeth yn ddigon pwrpasol a heriol?<br>2. A yw'r gydweithrediaeth wedi meithrin syniadau newydd ac arloesedd?<br>3. A yw cydweithio wedi hwyluso a chyflymu datrys problemau? |
| 6.3 | Beth oedd wedi gweithio'n dda a ddim cystal yn y gweithdy lansio a'r gweithdy diwrnod 25?<br><br>Anogiad: A oes unrhyw beth y dylid bod wedi'i wneud yn wahanol? |
| 7 | Ar raddfa o 1 i 10, pa mor effeithiol fu'r hwyluso yn ystod proses Communities4Change Cymru hyd yma? |

| | |
|---|---|
| | Anogiad: Beth yw'r rheswm dros eich ateb? |
| 8 | Yn eich barn chi, pa mor fuddiol y bu'r sesiynau hyfforddi hyd yma o ran eich helpu i gyfrannu'n effeithiol at Gydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg?<br><br>Anogiad: Beth yw'r rheswm dros eich ateb?<br><br>Anogiad: myfyrio ar eich arddull arwain, myfyrio ar gydweithio, beth mae angen iddo ddigwydd yn y gydweithrediaeth Prompt: reflecting on your leadership style, reflecting on working together, what needs to happen in collaborative |
| 9 | Oes gennych chi unrhyw adborth arall yr hoffech ei rannu? |

Diolch am gymryd rhan yn y cyfweliad.

Byddwn yn cysylltu â chi tua diwedd mis Mawrth i drefnu'r cyfweliad nesaf.

**T1: Y Gydweithrediaeth Ehangach**

**Communities4Change Cymru – Gwerthuso Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg**

Trefn Cyfweliadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dechrau'r cam gweithredu (T1) | ☒ | Uwch arweinwyr | ☐ |
| Cam ôl-weithredu (T2) | ☐ | Y gydweithrediaeth ehangach | ☒ |
| Cam dilynol ar ôl chwe mis (T3) | ☐ | Grŵp Goruchwylio'r Prosiect | ☐ |

Rhaglith – dylai'r cyfwelydd ddarllen hwn i'r cyfranogwr

| |
|---|
| Diolch am gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliad heddiw a fydd yn para tua 30-40 munud. Bydd y cyfweliad hwn yn canolbwyntio ar eich profiad o ymagwedd Communities4Change Cymru a Chydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg hyd yma.<br><br>Cyn i ni ddechrau'r cyfweliad, mae angen i mi wirio eich bod wedi cael cyfle i ddarllen y ddalen gwybodaeth i gyfranogwyr. |

| | |
|---|---|
| | |
| Oes gennych chi unrhyw gwestiynau? | ☐ |
| **Ffurflen gydsynio wedi'i llenwi**<br><br>Diolch am ddychwelyd y ffurflen gydsynio. Oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y ffurflen?<br><br>**Ffurflen gydsynio heb ei llenwi**<br><br>A gawsoch chi gyfle i edrych ar y ffurflen gydsynio? Cyn i ni ddechrau, bydd angen i mi fynd trwyddi gyda chi. | |
| Ffurflen gydsynio wedi'i thicio a'i llofnodi (yn berthnasol yn T1 yn unig) | ☐ |

| | |
|---|---|
| 1 | A allwch chi ddweud wrthyf ba sefydliad rydych yn gweithio iddo a beth yw'ch rôl yng Nghydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg? |
| 1 | Beth ddywedwyd wrthych am waith y gydweithrediaeth cyn i chi fynychu'r gweithdy lansio? |
| 2 | Beth yw'ch dealltwriaeth o ymagwedd Communities4Change Cymru?<br><br>Anogion: elfennau craidd / egwyddorion / cylch oes newid **[dangoswch anogiad A]** |
| 3 | I ba raddau ydych chi'n credu y bydd ymagwedd Communities4Change Cymru yn helpu'r gydweithrediaeth i gyflawni newid ystyrlon?<br><br>Anogiad: Pam ydych chi'n dweud hyn?<br><br>Anogion: Gwahaniaethau o gymharu â phrofiadau eraill o weithio mewn partneriaeth; unrhyw agweddau ar yr ymagwedd hyd yma a fydd yn helpu neu'n rhwystro newid; beth fyddai'n gwneud newid yn ystyrlon? |
| 4 | I ba raddau ydych chi'n credu bod y nod a osodwyd yn briodol **[dangoswch anogiad B]?** Pam?<br><br>Anogion – a yw'n gyflawnadwy, yn ymestynnol, yn bwysig, a fydd yn arwain at wella iechyd a thegwch<br><br>Beth yw'r rheswm dros eich ateb? |

| | |
|---|---|
| 5 | Ar raddfa o 1 i 10, pa mor hyderus ydych chi y bydd y nod ar gyfer y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau yn cael ei gyflawni?<br><br>Anogiad: Beth yw'r rheswm dros eich ateb? |
| 6 | Pa mor effeithiol oedd y **gweithdy lansio**, yn eich barn chi, wrth alluogi'r grŵp ddod i gytundeb ar y nod ar gyfer y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau a'r camau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nod? |
| 7 | Nawr, hoffwn i chi ystyried y **gweithdy lansio a'r gweithdy diwrnod 25**. |
| 7.1 | I ba raddau ydych chi'n credu eich bod wedi cyfrannu at drafodaethau?<br><br>Anogion:<br>4. Ydych chi'n credu bod yr arweinwyr a'r hwyluswyr wedi rhoi cyfle i chi leisio'ch barn?<br>5. Ydych chi'n credu bod y gydweithrediaeth yn fan diogel i rannu'ch barn?<br>6. Os oeddech yn cynnig barn a oedd yn tynnu'n groes i farn y mwyafrif, i ba raddau oeddech chi'n teimlo bod eich barn yn cael ei pharchu, ei thrafod a'i gweithredu (os yw'n briodol)?<br>7. A allwch chi ddisgrifio unrhyw enghreifftiau penodol i gefnogi hyn (does dim angen enwi cydweithwyr)? |
| 7.2 | I ba raddau ydych chi'n credu bod y gydweithrediaeth yn gweithio'n effeithiol?<br><br>Anogion:<br>8. Ydych chi'n credu bod gwaith y gydweithrediaeth yn ddigon pwrpasol a heriol?<br>9. A yw'r gydweithrediaeth wedi meithrin syniadau newydd ac arloesedd?<br>10. A yw cydweithio wedi hwyluso a chyflymu datrys problemau? |
| 7.3 | Beth oedd wedi gweithio'n dda a ddim cystal yn y gweithdai?<br><br>Anogiad: A oes unrhyw beth y dylid bod wedi'i wneud yn wahanol? |
| 7.4 | Ar raddfa o 1 i 10, pa mor effeithiol fu'r hwyluso yn ystod proses Communities4Change Cymru hyd yma?<br><br>Anogiad: Beth yw'r rheswm dros eich ateb? |
| 8 | Oes gennych chi unrhyw adborth arall yr hoffech ei rannu? |

Diolch am gymryd rhan yn y cyfweliad.

Byddwn yn cysylltu â chi tua diwedd mis Mawrth i drefnu'r cyfweliad nesaf.

**T1: Grŵp Goruchwylio'r Prosiect**

**Communities4Change Cymru – Gwerthuso Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg**

Trefn Cyfweliadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dechrau'r cam gweithredu (T1) | ☒ | Uwch arweinwyr | ☐ |
| Cam ôl-weithredu (T2) | ☐ | Y gydweithrediaeth ehangach | ☐ |
| Cam dilynol ar ôl chwe mis (T3) | ☐ | Grŵp Goruchwylio'r Prosiect | ☒ |

Rhaglith – dylai'r cyfwelydd ddarllen hwn i'r cyfranogwr

| | |
|---|---|
| Diolch am gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliad heddiw a fydd yn para tua 30-40 munud. Bydd y cyfweliad hwn yn canolbwyntio ar eich profiad o brosiect peilot Communities4Change Cymru a bod yn aelod o Grŵp Goruchwylio'r Prosiect a/neu'r tîm hwyluso.<br><br>Cyn i ni ddechrau'r cyfweliad, mae angen i mi wirio eich bod wedi cael cyfle i ddarllen y ddalen gwybodaeth i gyfranogwyr. | |
| Oes gennych chi unrhyw gwestiynau? | ☐ |
| **Ffurflen gydsynio wedi'i llenwi**<br><br>Diolch am ddychwelyd y ffurflen gydsynio. Oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y ffurflen?<br><br>**Ffurflen gydsynio heb ei llenwi**<br><br>A gawsoch chi gyfle i edrych ar y ffurflen gydsynio? Cyn i ni ddechrau, bydd angen i mi fynd trwyddi gyda chi. | |
| Ffurflen gydsynio wedi'i thicio a'i llofnodi (yn berthnasol yn T1 yn unig) | ☐ |

| | |
|---|---|
| | **Mae cwestiwn 1 ar gyfer hwyluswyr** |
| 1 | Mae glasbrint Communities4Change Cymru yn amlinellu ymagwedd sy'n ceisio dwyn ynghyd unigolion o wahanol asiantaethau sydd â nod cyffredin o alluogi a chyflymu newid i wella iechyd a thegwch iechyd. |

| | |
|---|---|
| | Beth oedd eich meddyliau cychwynnol ynglŷn â'r ymagwedd a amlinellwyd yn y glasbrint? **Dangoswch anogiad A**<br><br>Anogion: sylfaen dystiolaeth / nodweddion sy'n debyg neu'n wahanol i ymagweddau eraill at newid / lefel y manylion yn y glasbrint / mathau o fentrau newid y byddai'n fwyaf priodol iddynt. |
| 2 | Datganodd y cynnig cychwynnol gan Bartneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg mai'r maes yr oedd eisiau canolbwyntio arno oedd:<br><br>*Datblygu dull ar gyfer rhannu, dehongli a defnyddio data er mwyn gweithredu ar draws partneriaid mewn perthynas â thai ac iechyd ledled ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB)*<br><br>Beth yw eich barn am hyn fel prosiect priodol ar gyfer profi ymagwedd Communities4Change Cymru?<br><br>Anogion: graddfa / ffocws / math o newid / y gallu i'w gyflawni o fewn y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau / angen edrych ar ddatrysiadau gwahanol |
| 4 | Beth oedd wedi gweithio'n dda a ddim cystal yng ngweithdai dylunio a 'chamu'n ôl' Q Lab o ran myfyrio ar yr ymagwedd a'r dull o'i chyflawni? **Dangoswch anogiad C**<br><br>Anogiad: A oes unrhyw beth y gellid bod wedi'i wneud yn wahanol? |
| 5 | Nawr, hoffwn i chi ystyried y **gweithdai paratoi gyda'r uwch arweinwyr**. |
| | Mae glasbrint Communities4Change Cymru yn nodi y dylai uwch arweinwyr fod wedi gwneud y canlynol erbyn diwedd y cam cwmpasu a chynllunio:<br><br>11. Cael dealltwriaeth o ymagwedd Communities4Change Cymru<br>12. Cytuno ar bwrpas y gydweithrediaeth a'r nod arfaethedig<br>13. Ystyried beth fyddai'r camau nesaf ar gyfer y gwaith ar ôl y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau (strategaeth ymadael)<br>14. Cytuno ar ofynion hwyluso<br>15. Trafod pwy y mae angen iddo fod yn rhan o'r gydweithrediaeth<br><br>I ba raddau ydych chi'n credu bod y gweithdai paratoi wedi cyflawni hyn?<br><br>Anogiad: A allwch chi ddweud ychydig yn fwy wrthyf am eich ateb? |

| | |
|---|---|
| 4 | Beth oedd wedi gweithio'n dda a ddim cystal yn y gweithdai?<br><br>Anogiad: A oes unrhyw beth y gellid bod wedi'i wneud yn wahanol? |
| 5 | Nawr, hoffwn i chi ystyried y **gweithdy lansio a'r gweithdy diwrnod 25**. |
| 5.1 | Mae glasbrint Commuties4Change Cymru yn amlinellu'r canlynol mewn perthynas â rhan gynnar y cam gweithredu:<br><br>1. Dylai fod gan aelodau'r gydweithrediaeth ddealltwriaeth glir o broses C4C Cymru<br>2. Dylai uwch arweinwyr ddangos arddull arweinyddiaeth addasol sy'n cymell yr aelodau a'u galluogi i ymgysylltu<br>3. Dylai aelodau'r gydweithrediaeth ddeall y broblem, a dylent fod wedi ystyried gwahanol safbwyntiau a chytuno ar y nod(au) ar gyfer y gydweithrediaeth<br>4. Dylai aelodau'r gydweithrediaeth edrych ar ystod o ddatrysiadau i'r broblem, eu manteision a'u hanfanteision a chytuno ar ddatrysiad a ffefrir<br><br>I ba raddau ydych chi'n credu bod y gweithdai wedi cyflawni hyn?<br><br>Anogiad: A allwch chi ddweud ychydig yn fwy wrthyf am eich ateb? |
| 5.2 | Beth oedd wedi gweithio'n dda a ddim cystal yn y gweithdai?<br><br>Anogiad: A oes unrhyw beth y gellid bod wedi'i wneud yn wahanol? |
| | **Mae cwestiwn 6 ar gyfer holl aelodau Grŵp Goruchwylio'r Prosiect** |
| 6 | Mae Grŵp Goruchwylio'r Prosiect yn cynnwys aelodau o'r Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Q Lab Cymru a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.<br><br>Beth yw manteision ac anfanteision Grŵp Goruchwylio Prosiect amlasiantaethol, yn eich barn chi? |
| 7 | Oes gennych chi unrhyw adborth arall yr hoffech ei rannu? |

Diolch am gymryd rhan yn y cyfweliad.

[Os yw'n briodol]. Byddwn yn cysylltu â chi yn XXX i drefnu'r cyfweliad nesaf.

## T2: Uwch arweinwyr

**Communities4Change Cymru – Gwerthuso Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg**

Trefn Cyfweliadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dechrau'r cam gweithredu (T1) | ☐ | Uwch arweinwyr | ☒ |
| Cam ôl-weithredu (T2) | ☒ | Y gydweithrediaeth ehangach | ☐ |
| Cam dilynol ar ôl chwe mis (T3) | ☐ | Grŵp Goruchwylio'r Prosiect | ☐ |

Rhaglith – dylai'r cyfwelydd ddarllen hwn i'r cyfranogwr

| |
|---|
| Diolch am gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliad heddiw a fydd yn para tua 30-40 munud. Dyma'r ail o dri chyfweliad. Bydd yr olaf yn cael ei gynnal ym mis Hydref a bydd yn edrych ar sut mae'r gwaith wedi datblygu yn ystod y chwe mis ers i'r cam gweithredu ddod i ben.<br><br>Bydd cyfweliad heddiw'n canolbwyntio ar eich profiad o gam gweithredu 100 o ddiwrnodau Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg. |
| Oes gennych chi unrhyw gwestiynau cyn i ni ddechrau? |

| | |
|---|---|
| 1 | **Mae'r ddau gwestiwn cyntaf yn ymwneud ag ymagwedd C4C Cymru.** |
| 1a | Mae gan ymagwedd C4C Cymru gylchred ac elfennau craidd. I ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n credu bod yr ymagwedd wedi ychwanegu gwerth wrth gyflawni newid ystyrlon o gymharu ag ymagweddau eraill? Pam?<br><br>**[dangoswch anogiad A]**<br><br>Anogion: Gwahaniaeth o gymharu â'ch profiad o bartneriaethau eraill ym maes iechyd neu dai; gwahaniaeth o gymharu â pheidio â defnyddio'r ymagwedd; unrhyw agweddau ar yr ymagwedd sydd wedi helpu neu rwystro newid? |
| 1b | Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y bu'r sesiynau hyfforddi'n ddefnyddiol i chi?<br><br>Anogion: amser i fyfyrio ar waith y gydweithrediaeth neu eich arweinyddiaeth, wedi dysgu pethau annisgwyl amdanoch eich hun |

| | |
|---|---|
| 2 | **Nawr, hoffwn i chi ystyried effaith y gydweithrediaeth** |
| 2a | I ba raddau ydych chi'n credu bod y gydweithrediaeth wedi cyflawni'r nodau y cytunwyd arnynt yn y sesiwn lansio? Beth yw'r rheswm dros eich ateb?<br><br>[**[dangoswch anogiad B]**] |
| 2b | A fu unrhyw effeithiau eraill o ganlyniad i waith y gydweithrediaeth yn ystod y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau?<br><br>Anogion: ydych chi'n credu bod mwy o ymddiriedaeth rhwng partneriaid iechyd a thai? Ydych chi wedi cysylltu â'r arweinwyr eraill yn y gydweithrediaeth ynglŷn â materion y tu allan i'r gydweithrediaeth? Ydych chi'n bwriadu cydweithio yn y dyfodol? |
| 3 | **Nawr, hoffwn i chi ystyried pum gweithdy'r cam gweithredu 100 o ddiwrnodau** |
| 3.1 | I ba raddau ydych chi'n credu bod yr holl aelodau wedi cyfrannu at drafodaethau?<br><br>Anogion:<br>5. Ydych chi'n credu y rhoddwyd cyfle i'r holl aelodau gael eu clywed?<br>6. Ydych chi'n credu bod y gydweithrediaeth yn fan diogel i aelodau rannu eu safbwyntiau?<br>7. Os oedd barn aelod yn tynnu'n groes i farn y mwyafrif, i ba raddau yr oedd ei farn yn cael ei pharchu, ei thrafod a'i gweithredu (os yw'n briodol)?<br>8. A allwch chi ddisgrifio enghreifftiau penodol i gefnogi hyn (does dim angen enwi cydweithwyr)? |
| 3.2 | I ba raddau ydych chi'n credu bod y gydweithrediaeth wedi gweithio'n effeithiol?<br><br>Anogion:<br>9. Ydych chi'n credu bod gwaith y gydweithrediaeth wedi bod yn ddigon pwrpasol a heriol?<br>10. A yw'r gydweithrediaeth wedi meithrin syniadau newydd ac arloesedd?<br>11. A yw cydweithio wedi hwyluso a chyflymu datrys problemau? |
| 3.3 | Beth oedd wedi gweithio'n dda a ddim cystal yn y gweithdai, yn eich barn chi?<br><br>Anogiad: A oes unrhyw beth y dylid bod wedi'i wneud yn wahanol? |

| | |
|---|---|
| 4 | Ym mha ffyrdd, os o gwbl, ydych chi'n credu bod cymryd rhan yn y gydweithrediaeth wedi dylanwadu ar y ffordd rydych yn gweithio y tu allan i'r gydweithrediaeth?<br><br>[Anogion: eich awydd i arloesi, y ffordd rydych yn ymgymryd â gwaith partneriaeth] |
| 5 | Gan fod y cam gweithredu wedi'i gwblhau bellach, i ba raddau ydych chi'n credu bod cynllun ymadael gyda chamau nesaf clir? Beth yw'r rheswm dros eich ateb? |
| 6 | Beth fyddech chi'n ei ystyried yn llwyddiant i'r prosiect ymhen chwe mis? |
| 7 | Oes gennych chi unrhyw adborth arall yr hoffech ei rannu? |

Diolch am gymryd rhan yn y cyfweliad.

Byddwn yn cysylltu â chi ym mis Medi 2022 i drefnu'r cyfweliad chwe mis dilynol ym mis Hydref 2022.

**T2: Y gydweithrediaeth ehangach**

**Communities4Change Cymru – Gwerthuso Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg**

Trefn Cyfweliadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dechrau'r cam gweithredu (T1) | ☐ | Uwch arweinwyr | ☐ |
| Cam ôl-weithredu (T2) | ☒ | Y gydweithrediaeth ehangach | ☒ |
| Cam dilynol ar ôl chwe mis (T3) | ☐ | Grŵp Goruchwylio'r Prosiect | ☐ |

Rhaglith – dylai'r cyfwelydd ddarllen hwn i'r cyfranogwr

| |
|---|
| Diolch am gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliad heddiw a fydd yn para tua 30-40 munud.<br><br>Bydd cyfweliad heddiw'n canolbwyntio ar eich profiad o gam gweithredu 100 o ddiwrnodau Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg. |
| Oes gennych chi unrhyw gwestiynau cyn i ni ddechrau? |

| | |
|---|---|
| 1 | **Mae’r ddau gwestiwn cyntaf yn ymwneud ag ymagwedd C4C Cymru.** |
| 1a | Mae gan ymagwedd C4C Cymru gylchred ac elfennau craidd. I ba raddau, os o gwbl, ydych chi’n credu bod yr ymagwedd wedi ychwanegu gwerth wrth gyflawni newid ystyrlon o gymharu ag ymagweddau eraill? Pam?<br><br>**[dangoswch anogiad A]**<br><br>Anogion: Gwahaniaeth o gymharu â’ch profiad o bartneriaethau eraill ym maes iechyd neu dai; gwahaniaeth o gymharu â pheidio â defnyddio’r ymagwedd; unrhyw agweddau ar yr ymagwedd sydd wedi helpu neu rwystro newid? |
| 2 | **Nawr, hoffwn i chi ystyried effaith y gydweithrediaeth** |
| 2.1 | I ba raddau ydych chi’n credu bod y gydweithrediaeth wedi cyflawni’r nodau y cytunwyd arnynt yn y sesiwn lansio? Beth yw’r rheswm dros eich ateb?<br><br>[**[dangoswch anogiad B]**] |
| 2.2 | A fu unrhyw effeithiau eraill o ganlyniad i waith y gydweithrediaeth yn ystod y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau?<br><br>[Anogion: mwy o ymddiriedaeth rhwng partneriaid iechyd a thai; potensial i gydweithio ar brosiectau eraill] |
| 3 | **Nawr, hoffwn i chi ystyried pum gweithdy’r cam gweithredu 100 o ddiwrnodau** |
| 3.1 | I ba raddau ydych chi’n credu eich bod wedi cyfrannu at drafodaethau?<br><br>Anogion:<br>12. Ydych chi’n credu bod yr arweinwyr a’r hwyluswyr wedi rhoi cyfle i chi leisio’ch barn?<br>13. Ydych chi’n credu y bu’r gydweithrediaeth yn fan diogel i rannu’ch barn?<br>14. Os oeddech yn cynnig barn a oedd yn tynnu’n groes i farn y mwyafrif, i ba raddau oeddech chi’n teimlo bod eich barn yn cael ei pharchu, ei thrafod a’i gweithredu (os yw’n briodol)? |
| 4.2 | I ba raddau ydych chi’n credu bod y gydweithrediaeth wedi gweithio’n effeithiol?<br><br>Anogion: |

| | |
|---|---|
| | 15. Ydych chi'n credu bod gwaith y gydweithrediaeth wedi bod yn ddigon pwrpasol a heriol?<br>16. A oedd y gydweithrediaeth wedi meithrin syniadau newydd ac arloesedd?<br>17. A oedd cydweithio wedi hwyluso a chyflymu datrys problemau? |
| 4.3 | Beth oedd wedi gweithio'n dda a ddim cystal yn y gweithdai, yn eich barn chi?<br><br>Anogiad: A oes unrhyw beth y dylid bod wedi'i wneud yn wahanol? |
| 5 | Ym mha ffyrdd, os o gwbl, ydych chi'n credu bod cymryd rhan yn y gydweithrediaeth wedi dylanwadu ar y ffordd rydych yn gweithio y tu allan i'r gydweithrediaeth?<br><br>Anogion: Ydych chi wedi newid unrhyw agwedd ar eich ymarfer neu'r ffordd rydych yn ymgymryd â'ch gwaith? |
| 6 | Gan fod y cam gweithredu wedi'i gwblhau bellach, i ba raddau ydych chi'n credu bod cynllun ymadael gyda chamau nesaf clir? Beth yw'r rheswm dros eich ateb? |
| 7 | Beth fyddech chi'n ei ystyried yn llwyddiant i'r prosiect ymhen chwe mis? |
| 8 | Oes gennych chi unrhyw adborth arall yr hoffech ei rannu? |

Diolch am gymryd rhan yn y cyfweliad.

Byddwn yn cysylltu â chi ym mis Medi 2022 i drefnu'r cyfweliad chwe mis dilynol ym mis Hydref 2022.

## T2: Grŵp Goruchwylio'r Prosiect

**Communities4Change Cymru – Gwerthuso Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg**

Trefn Cyfweliadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llinell sylfaen (T1) | ☐ | Uwch arweinwyr | ☐ |
| Cam ôl-weithredu (T2) | ☒ | Y gydweithrediaeth ehangach | ☐ |
| Cam dilynol ar ôl chwe mis (T3) | ☐ | Grŵp Goruchwylio'r Prosiect | ☒ |

Rhaglith – dylai’r cyfwelydd ddarllen hwn i’r cyfranogwr

| | |
|---|---|
| Diolch am gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliad heddiw a fydd yn para tua 30-40 munud. Bydd y cyfweliad hwn yn canolbwyntio ar eich canfyddiadau o oruchwylio’r prosiect a chyflwyno ymagwedd Communities4Change gyda Chydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg. | |
| Oes gennych chi unrhyw gwestiynau? | ☐ |

| | |
|---|---|
| 1 | I ba raddau ydych chi’n credu bod y naw elfen graidd a’r cylch newid a amlinellir yng nglasbrint C4C Cymru wedi cael eu gweithredu fel y bwriadwyd? Beth yw’r rheswm dros eich ateb?<br><br>[**Dangoswch Anogiad A**] |
| 2 | O ystyried eich gwybodaeth am y prosiect peilot gyda Phartneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg, pa mor ddilys ydych chi’n credu oedd damcaniaeth newid C4C Cymru? Pam?<br><br>[**Dangoswch Anogiad C**]<br><br>[Anogiad: O ystyried y wybodaeth sydd gennych nawr, a oes unrhyw **alluogwyr, tybiaethau, gweithgareddau neu effeithiau rhagfynedig** nad oedd Grŵp Goruchwylio’r Prosiect wedi eu hystyried?] |
| 3 | Pa agweddau ar gyflwyno’r ymagwedd sydd wedi gweithio’n dda, yn eich barn chi?<br><br>[Anogion: e.e. sesiynau hyfforddi, ymddiriedaeth a pherthnasoedd, hyblygrwydd, gwaith tîm, amser paratoi, gwerthoedd, cyfathrebu, deall yr ymagwedd a rolau, uwchsgilio aelodau o dîm yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd, cymorth gan Q Lab Cymru] |
| 4 | Pa agweddau ar gyflwyno’r ymagwedd sydd wedi gweithio ddim cystal, yn eich barn chi?<br><br>[Anogion: e.e. sesiynau hyfforddi, ymddiriedaeth a pherthnasoedd, hyblygrwydd, gwaith tîm, amser paratoi, gwerthoedd, cyfathrebu, deall yr ymagwedd a rolau, uwchsgilio aelodau o dîm yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd, cymorth gan Q Lab Cymru] |
| 5 | Ym mha ffyrdd, os o gwbl, ydych chi’n credu y gellid gwella’r dull o **gyflwyno’r** ymagwedd? |

| | |
|---|---|
| 6 | A oes unrhyw agweddau ar yr ymagwedd a ddisgrifir yng nglasbrint C4C y gellid eu gwella, yn eich barn chi?<br><br>[Anogiad: Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?] |
| 7 | Beth ydych chi wedi'i ddysgu o fod yn aelod o Grŵp Goruchwylio'r Prosiect a chefnogi neu gyflawni'r prosiect?<br><br>[Anogiad: ydych chi wedi newid unrhyw agweddau ar eich ymarfer?] |
| 8 | Oes gennych chi unrhyw adborth arall yr hoffech ei rannu? |

Diolch am gymryd rhan yn y cyfweliad.

Byddwn yn cysylltu â chi ym mis Medi 2022 i drefnu'r cyfweliad chwe mis dilynol ym mis Hydref 2022.

## T3: Uwch arweinwyr

**Communities4Change Cymru – Gwerthuso Cydweithrediaeth Partneriaeth Tai Iach Cwm Taf Morgannwg**

Trefn Cyfweliadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dechrau'r cam gweithredu (T1) | ☐ | Uwch arweinwyr | ☒ |
| Cam ôl-weithredu (T2) | ☐ | Y gydweithrediaeth ehangach | ☐ |
| Cam dilynol ar ôl chwe mis (T3) | ☒ | Grŵp Goruchwylio'r Prosiect | ☐ |

Rhaglith – dylai'r cyfwelydd ddarllen hwn i'r cyfranogwr

| |
|---|
| Diolch am gytuno i gymryd rhan yn y cyfweliad heddiw a fydd yn para tua 30-40 munud. Dyma'r cyfweliad dilynol i weld sut mae'r gwaith wedi datblygu yn ystod y chwe mis ers i'r cam gweithredu ddod i ben. |
| Ydych chi'n fodlon i mi recordio'r cyfweliad at ddibenion dadansoddi data? |
| Oes gennych chi unrhyw gwestiynau cyn i ni ddechrau? |
| Er mwyn eich atgoffa cyn i ni ddechrau, nod cytunedig y gydweithrediaeth ar ddechrau'r cam gweithredu 100 o ddiwrnodau oedd datblygu dull ar |

| |
|---|
| gyfer rhannu, dehongli a defnyddio data er mwyn gweithredu ar draws partneriaid mewn perthynas â thai ac iechyd. Ar ddiwedd y cam gweithredu 100 o ddiwrnodau, roedd gwaith y gydweithrediaeth wedi arwain at greu dangosfwrdd prototeip a chael set ddata/setiau data gan dai. Bryd hynny, nid oedd y set ddata/setiau data wedi cael ei/eu mewngludo i'r dangosfwrdd.<br><br>*"Roedd hyn o ganlyniad i gyfyngiadau amser a chapasiti ar y tîm a oedd yn llunio'r dangosfwrdd. Bydd un o'r Uwch Arweinwyr yn parhau i fonitro hyn ac annog y cam gweithredu hwn i gael ei wireddu; gobeithir o hyd y bydd hyn yn cael ei gwblhau yn y dyfodol agos"*. (Anogiad B) |

| | |
|---|---|
| | **Bydd y cwestiynau cyntaf yn gofyn i chi beth sydd wedi digwydd ers i gam gweithredu 100 o ddiwrnodau'r gydweithrediaeth ddod i ben ym mis Ebrill.** |
| 1 | Pa gynnydd ydych chi'n credu sydd wedi cael ei wneud yn ystod y 6 mis diwethaf ers i gam gweithredu ffurfiol y gydweithrediaeth ddod i ben ym mis Ebrill? |
| 2 | Pa ffactorau sydd wedi galluogi cynnydd ers i'r cam gweithredu ddod i ben?<br><br>(Anogion: pobl neu adnoddau ariannol, perthnasoedd, ffocws strategol) |
| 3 | Pa ffactorau sydd wedi rhwystro cynnydd ers i'r cam gweithredu ddod i ben?<br><br>(Anogion: pobl neu adnoddau ariannol, perthnasoedd, blaenoriaethau tîm neu sefydliadol sy'n cystadlu) |
| 4 | I ba raddau ydych chi'n credu bod y perthnasoedd a ddatblygwyd yn ystod y cam gweithredu wedi cael eu cynnal? Rhowch resymau dros eich ateb |
| | **Nawr, hoffwn i chi fyfyrio ar eich profiad o ymagwedd C4C Cymru** |
| 5 | Beth ydych chi'n credu oedd manteision yr ymagwedd wrth gyflawni newid cadarnhaol a oedd yn gofyn am weithio mewn partneriaeth?<br><br>**[dangoswch anogiad A]** |


| | | |
|---|---|---|
| 6 | Beth am unrhyw anfanteision?<br><br>(Anogion: yr amser a oedd yn ofynnol / cost cyfle cymryd rhan / nid yr ymagwedd orau ar gyfer y broblem roeddem eisiau gweithio arni) |
| 7 | Ym mha ffyrdd ydych chi'n credu y gellid gwella ymagwedd C4C Cymru? |
| 8 | Oes gennych chi unrhyw adborth arall yr hoffech ei rannu? |

Diolch am gymryd rhan yn y cyfweliad.


Byddwn yn rhannu'r adroddiad gwerthuso terfynol gyda chi ar ddiwedd y flwyddyn, 2022.

**Anogiad A**


Elfennau craidd




Cylch oes



**Anogiad B**




Mae **Anogiad C** yn cynnwys delweddau o'r byrddau Miro a ddefnyddiwyd yng ngweithdai dylunio a 'chamu'n ôl' Grŵp Goruchwylio'r Prosiect. Mae'r rhain ar gael ar gais.

# Atodiad Chwech: Fframwaith codio cychwynnol

| *Prif thema* | *Is-thema* |
|---|---|
| Galluogwyr<br>a rhwystrau rhag gweithredu | • Cydweithio<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ymagwedd<br>• Eglurder ynglŷn â rolau<br>• Yr amgylchedd cyflawni<br>• Gwerth canfyddedig yr ymagwedd |
| Addasrwydd<br>yr ymagwedd | • Maint y gydweithrediaeth a natur y broblem<br>• Cynhyrchu datrysiad<br>• Graddau hwyluso<br>• Cynnwys defnyddwyr terfynol<br>• Cyflawni'r ymagwedd |
| Effeithiolrwydd<br>cydweithredu | • Amser paratoi<br>• Effaith<br>• Cynaliadwyedd<br>• Capasiti ac ymrwymiad i gyflawni |
| Datblygu'r<br>Prosiect | • Gwerth ac effeithiolrwydd gweithdai dylunio Q-Lab gyda Grŵp Goruchwylio'r Prosiect |
| Myfyrio<br>a dysgu | • Sesiynau hyfforddi<br>• Newid ymarfer |